SIATHRE

Dwy ddim yn cofio teithio hon o'r blaen
Mae'r lon yn ddierth, yn dywyll o fy mlaen
A'r peth rhyfedda yw dw'i ddim yn teimlo ofn
Wrth ddawnsio ar fy ffordd siathre.

Dwy ddim yn cofio yr addewid rhoes i ti
Dwy ond yn cofio y tynerwch rhoest i mi
A'r peth rhyfedda yw rwyt yma gyda mi
Yn dawnsio ar y ffordd siathre.

Dawnsio, dawnsio, dawnsio, ar y cerrig man
Dawnsio, dawnsio, dawnsio, sibrwd geiriau'r gan
Troi ymysg yr hen ysbrydion
Gwasgaru llwch y ffordd fel hen ofydion
Ar y ffordd siathre, ar y ffordd siathre.

Dwy ddim yn cofio fod unrhyw beth o bwys
Ag hollol ddibwys yw'r holl bryderon dwys
A'r peth rhyfedda yw'r ysgafnder yn fy nhraed
Wrth ddawnsio ar fy ffordd siathre.

©Geraint Griffiths